

Adroddiad Blynyddol gan Gyngorydd 2020/21

Hwn yw'r adroddiad gan y Cyngorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cyngorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

Cyngorydd: Llinos Medi

Parti: Plaid Cymru

Ward: Talybolion

1 - Rôl a Chyfrifoldebau

Rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:	Crynodeb o Bresenoldeb
Cyngor Sir Ynys Môn	http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mg/Attendance.aspx?UID=304&DR=31%2f03%2f2020-31%2f03%2f2021&LLL=1
Panel Rhiantu Corfforaethol	
Pwyllgor Cyswllt Y Sector Gwirfoddol	
Pwyllgor Grantiau Cyffredinol	
Pwyllgor Gwaith	
Pwyllgor Penodiadau	
Pwyllgor Ymchwilio	
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn	
Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys pob cyfarfod sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.	
Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.	

Rwy'n aelod o Gymdeithas Elusennol Ynys Môn. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth – mae manylion am fy mhresenoldeb yn y cyfarfodydd hyn ar gael hefyd ar y ddolen uchod.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:

Corff allanol	Crynodeb o rôl a chyfraniad
<ul style="list-style-type: none"> - Bwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru - Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (Môn & Gwynedd) - Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol (Rhan 9 Deddf - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014) - Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru - Is-grŵp Ynni BUGC - Cymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru - Grŵp Cyfeirio Cydranddeiliaid Betsi Cadwaladr - Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd - Grŵp Rhanddeiliad y Safle Wylfa - Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn - Llywodraethwr Ysgol Gynradd Llanfechell - Llywodraethwr Ysgol Uwchradd Bodedern - Medrwn Môn - Pencampwr Diogelu Oedolion - Pencampwr Plant a Phobl Ifanc - Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol - Bwrdd Menter Môn 	<p>Arweinydd/Is-gadeirydd Arweinydd Deilydd Portffolio</p> <p>Arweinydd Arweinydd dynodedig y gogledd Arweinydd Deilydd Portffolio Aelod Lleol Aelod Lleol Deilydd Portffolio Aelod Lleol Aelod Lleol/Cadeirydd Arweinydd Deilydd Portffolio</p> <p>Arweinydd Arweinydd</p>

2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Rwyf fel Aelod Lleol ar y cyd gyda'r Cynghorydd John Griffith a'r Cynghorydd Ken Hughes yn mynychu'r 7 Cyngor Cymuned mewn rota. Rwyf hefyd yn Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Llanfechell ac Ysgol Uwchradd Bodedern ble rwyf yn Gadeirydd y Corff. Byddaf yn cynrychioli etholwyr Talybolion mewn amryw o faterion lleol er enghraifft materion Tai, Cynllunio, Gwastraff, Priffyrdd, Gwasanaethau Cymdeithasol ayyb.

Rwyf yn cydweithio gyda nifer o grwpiau cymunedol sef Ffrindiau Bodedern, Ffrindiau Llanfachraeth gafodd ei sefydlu eleni gyda fy nghefnogaeth ac rwy'n cefnogi grŵp sydd ar gychwyn yn Llanfaethlu er mwyn gwella'r adnodd chwarae yn y pentref. Rwyf wedi gallu dod a chymorth Menter Môn a Medrwn Môn i mewn pan mae angen er mwyn cefnogi'r gweithgareddau cymunedol.

3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Yn ystod y cyfnod heriol Cofid rwyf wedi parhau i gadw cysylltiad gyda'r cymunedau tra'n arwain y Cyngor mewn argyfwng. Rwyf wedi cyfarfod yn rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr er mwyn sicrhau bod gan Ynys Môn lais cryf yn ystod yr argyfwng. Gellir gweld copi o fy adroddiad blynyddol fel Arweinydd fan hyn -

<http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/documents/s17260/Adroddiad%20Blynyddol%20Arweinydd%20y%20Cyngor%202021.pdf?LLL=1>

4 - Dysgu a Datblygu

Mae gwybodaeth am y mentrau dysgu a datblygu rwyf wedi'u mynychu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gael yma (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn): [Hyfforddiant](#)

5 - Gweithgareddau a Materion Eraill

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cefais fy ethol fel Dirprwy Lefarydd Gwasanaethau Cymdeithasol CLILC. Rwyf yn cyfarfod yn rheolaidd gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru i drafod materion Gwasanaethau Cymdeithasol. Rwyf hefyd wedi cadeirio digwyddiadau Gwasanaethau Plant yn Genedlaethol yn rhinwedd y swydd hon a chymryd rhan mewn cyfweiliadau ar faterion cenedlaethol.

Rwyf wedi parhau i gadeirio Fforwm Cyngor Tref a Chymuned yn rhithiol, sy'n fforwm hynod bwysig er mwyn sicrhau cysylltiad y Cyngor Sir gyda'r Cynghorau lleol.

Fel Pencampwr Cydraddoldeb rwyf wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau er mwyn hyrwyddo'r angen am gymdeithas gyfartal. Cefais y fraint o gynnal digwyddiad i staff y Cyngor i drafod heriau merched yn y maes hwn ar Ddiwrnod Cenedlaethol Merched.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn heriol iawn a hoffwn ddiolch o waelod calon i fy nheulu, ffrindiau a chyd gynghorwyr am eu cefnogaeth. Ond mae 'na ddau fach sydd wedi fy nghefnogi mwy na neb, sef fy mhlant. Tra eu bod hwythau yn brwydro i ddysgu o adra a minnau yn brwydro'r argyfwng maent wedi bod yn gefn aruthrol i'w Mham.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma: [Cynghorydd Llinos Medi](#)